**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 6ed Ebrill 2022, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs E. M. Chard, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, T. Thomas a Mrs M. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**88. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr A. S. Johnson, Ms J. L. McAlpine, Miss S. L. Roberts a Miss C. L. Williams.

**89. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – MAWRTH 2022**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb. | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1360 | BT | 246.24 | Gwasanaethau ffôn a rhyngrwyd |
| 1361 | HSBC | 11.00 | Taliadau banc 17 Ion i 16 Chwef 2022 |
| 1167 | Cyngor ar Bopeth | 2,000.00 | Swyddog Arbed Ynni – taliad 4 o 4 2021/22 |
| 1168 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apelio taliad 12 o 12 2021/22 |
| 1362 | Gunsmoke Communications | 1,600.00 | Ffi reoli Chwefror 2022 |
| 1363 | CThEM | 2,794.89 | Didyniadau PAYE Chwefror 2022 |
| 1364 | Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd) | 4,294.23 | Cyfraniadau oensiwn ac ariannu diffyg Chwefror 2022 |
| 1365 | Cyflogau staff | 8,625.34 | Cyflogau staff Mawrth 2022 |
| 1382 | BT | 219.22 | Taliadau rheolaidd |
| | **Cyfanswm taliadau** | **20,707.58** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod | 24.16 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 3.07 |
| HSBC | Llog ar gyfrif BMM | 3.95 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 3.07 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 2.45 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 19.64 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 5.52 |
| | | |
| | **Cyfanswm incwm** | **61.86** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 90. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ychwanegiad i'r atodlen a ddosbarthwyd gan fod y Cyngor Tref nwr yn barod i gwblhau trosglwyddiad Canolfan Gymunedol Gtynewydd i Gmdeithas Gymunedol hy Rhyl (RCA), a gofynnodd am awdurdod gan yr aelodau i ryddhau £10,000 i'r RCA fel y cyffraniad a gytunwyd i waith ailwampio'r ganolfan, £13.00 i Edward Hughes ar gyfer taliadau a £1,080.00 i Edward Hughes am ffioedd cyfreithiol, cyfanswm o £11,093 llai'r £50.00 adnau a dalwyd eisoes, £11,043.00.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1382 | Gunsmoke Communications | Hysbysebu a melysion ar gyfer digwyddiad Diwrnod y Maer | 31.73 |
| 1383 | Cyngor Tref Treffynnon | 2 x docyn cinio elusen 30aain Ebrill 2022 | 70.00 |
| 1384 | Y Cyngh D. L. King | Treuliau Maer Mawrth 2022 | 105.10 |
| 1385 | Cyngor Tref Bae Colwyn | 2 x docyn cinio sgodyn a sglodion 14eg Ebrill 2022 | 30.00 |
| 1386 | Cronfa Criw RNLI y Rhyl | 2 x docyn i Ginio'r Criw 30 Ebrill 2022 | 60.00 |
| 1387 | Cyngor Sir Ddinbych | Gwaith i wal ar ôl difrod storm Ionawr 2022 | 6,246.78 |
| - | Edward Hughes & Co | Gwerthu Canolfan Gymunedol Tynewydd | 11,043.00 |
| | | ***Cyfanswm*** | **£17,586.61** |

**Taliadau argyfwng a cherdyn:** Nid oedd unrhyw daliadau argyfwng na cherdyn.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 91. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 92. COFNODION CYFRINACHOL

Derbyn y cofnodion canlynol (a ddobarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth a chymeradwyo'r argymhellion ynddynt:

Is-bwyllgor Asesu Risg - Arbennig - 15fed Mawrth 2022 - Rhifau Cofnod 53-57

Pwyllgor Cynllunio Gweithredol a Strategol - 14eg Mawrth 2022 - Rhifau Cofnod 31-39

***PENDEFYNWYD*** *cymeradwyo'r cofnodion a'r argymhellion ynddynt.*

**93. ETHOLIADAU 2022 – TREFNIADAU GWEINYDDOL**

Ymhellach i gofnod rhif 85 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2il Mawrth 2022, pan roedd nifer o faterion wedi eu cytuno dros dro mewn perthynas â Chyfarfod Blynyddol y Cyngor ar ôl yr etholiadau, ac yn benodol y byddai'r Dirprwy Faer presennol yn cael ei dyrchafu i Swydd y Maer a bod penderfyniad ar benodi Dirprwy faer newydd yn cael ei wneud yn y Cyfarfod Blynyddol.

Dywedodd Clerc y Dref ei fod yn ymwybodol bod trafodaethau wedi bod ymhlith aelodau ynglŷn â gofyn i'r Maer presennol aros yn y swydd am 12 mis arall i alluogi i'r Cynghorydd King gael blwyddyn mwy "normal' nawr bod cyfyngaidau Covid wedi eu llacio'n arwyddocaol.

Byddai hyn yn golygu, wrth gwrs, na fyddai'r Dirprwy Faer presennol yn cael ei dyrchafu'n Faer, yn unol â pholisi'r Cyngor Tref, a mwy na thebyg yn cael cais i ystyried aros yn y rôl am 12 mis arall, ac yn dod yn Faer yn 2023/24?

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau os oedd hyn yn wir, gan fod peth brys gan fod angen bwcio a gwahodd unwaith y byddai canlyniad yr etholiadau ar 5ed Mai yn hysbys.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal cyfarfod anffurfiol o'r Cyngor yn y cyfnod rhwng 9fed a 18fed Mai (dyddiad Cyfarfod Blynyddol y Cyngor) i benderfynu pa rai o'r Cynghorwyr newydd eu hethol fyddai'n cymryd swyddi Maer a Dirprwy Faer ynghyd â nifer o rolau eraill, i alluogi personoleiddio'r Noson o gwmpas y Maer newydd, gymaint ag y bi modd.*

**94. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………